



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018 am 10.00 am ym Block F, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd L Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Ms E Phipps-Magill, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
Ms C Miles, Childcare Solicitor
Ms E Jones (NYAS)
Ms K Edmonds-Daniel (RCT Forum)

Eraill oedd yn bresennol

21 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins, J. James a S. Rees-Owen.

22 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

23 Cofnodion

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 24 Medi 2018 yn rhai cywir.

24 Plant sy'n derbyn gofal: Cynnydd y Wefan

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Rheolwr y Garfan Adolygu wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am wefan Dwy Ochr RhCT. Esboniodd y swyddog fod gwefan Dwy Ochr wedi cael ei chomisiynu gan Wasanaethau i Blant RhCT gyda chefnogaeth y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Bwriad yr adnodd yw darparu gwybodaeth angenrheidiol i Blant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifainc.

Eglurwyd bod y Garfan Adolygu, gyda Lleisiau o Ofal, wedi trefnu diwrnod ymgynghori gyda grŵp bach o Blant sy'n Derbyn Gofal ar 28 Awst, 2018. Bwriad hyn oedd ailymweld â'r wefan er mwyn gwella'r cysyniad, ei chynnwys a'i golwg. Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd y grŵp yn teimlo, er bod cysyniad gwreiddiol y wefan yn un cadarnhaol, roedd diffyg cyfleoedd amrywiol, doedd hi heb gael ei hyrwyddo'n dda a'r farn oedd ei bod hi wedi dyddio. Roedd y bobl ifainc yn teimlo y byddai angen iddi fod yn fwy rhyngweithiol a modern ei golwg, gyda llai o destun, er mwyn cynyddu'r defnydd ohoni.

Gwelliant arall a gafodd ei grybwyll gan y grŵp ymgynghori oedd cynnwys hyperddolenni i wefan Wicid, ac oddi wrthi. Rhoddodd y swyddog gyflwyniad byr i'r Bwrdd i wefan Wicid, sy'n ffynhonnell wybodaeth ganolog i bobl ifainc, os ydyn nhw'n derbyn gofal neu beidio. Yn ogystal â digwyddiadau lleol a gweithgareddau diwylliannol sydd i ddod, mae'r wefan yn ceisio cynyddu pa mor effro yw pobl i iechyd meddwl a gwybodaeth am faterion cyllido, tai ac addysg. Siaradodd y swyddog am yr her o gynhyrchu cynnwys cwbl newydd ar gyfer gwefan Dwy Ochr, ac eglurodd y byddai defnyddio hyperddolen i wefan Dwy Ochr a Wicid o fudd i ddefnyddwyr y ddwy wefan.

Eglurwyd y byddai grŵp o bobl ifainc yn cyfarfod eto yn 2019, i weithio ar symleiddio cynnwys a golwg gwefan Dwy Ochr, i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant iau ac yn fan gwybodaeth. Ychwanegodd y swyddog fod potensial i Blant sy'n Derbyn Gofal ddatblygu eu hanimeiddiad eu hunain ar gyfer y wefan i ddangos i eraill bod cymorth ar gael.

Roedd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn canmol y gwaith a oedd wedi'i wneud i wella gwefan Dwy Ochr, gan gydnabod gwerth y wefan yn ogystal â'r her o neilltuo adnoddau ar gyfer ei datblygu.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod nad yw llawer o Awdurdodau Lleol yn cynnig y ddarpariaeth yma ac y byddai RhCT yn parhau i ddysgu a datblygu gwefan Dwy Ochr. Gwnaeth un Aelod sylwadau ar yr angen i gysylltu gwefan Dwy Ochr â gwefannau trydydd parti er mwyn cyfeirio pobl ifainc at yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw, boed hynny'n wybodaeth gyffredinol neu wybodaeth benodol i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Gan gyfeirio at yr animeiddiad gan Blant sy'n Derbyn Gofal, roedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi nodi bod modd iddyn nhw anfon fideos cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol oedrannau, y byddai modd eu cynnwys ar y wefan hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad cyffrous a gofynnodd am ddiweddariad pellach i'r Bwrdd yn y Flwyddyn Gyngor 2019/20.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- a) Nodi'r diweddariad;

b) Derbyn diweddariad pellach yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019/20.

25 Fforwm Glasbrint

Cyflwynodd Ms K. Edmonds-Daniel o Leisiau o Ofal ei hun i'r Bwrdd a dywedodd wrth yr Aelodau fod y Fforwm Glasbrint wedi newid ei enw yn ddiweddar i Fforwm RhCT gyda chaniatâd y bobl ifainc. O ganlyniad i'r newid, roedd Fforwm RhCT yn ei ail-frandio ei hun ac yn ehangu ei ddull gweithio i gynnwys gwaith allgymorth (outreach).

Tynnodd Ms Edmonds-Daniel sylw at rai agweddau o'r gwaith y mae Fforwm RhCT wedi'i wneud rhwng Ebrill a Medi 2018, gan gynnwys gweithgareddau lleol a chenedlaethol:

- **NSPCC** - Roedd y Fforwm wedi creu partneriaeth â'r NSPCC i ganolbwyntio ar sut mae modd meithrin iechyd meddwl cadarnhaol;
- **Hyfforddiant Eiriolaeth Cymheiriaid y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol** - Roedd aelodau'r Fforwm wedi mynd ar gwrs achrededig dau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar ddod yn gynrychiolwyr effeithiol ar gyfer pobl ifainc sydd â phrofiad o ofal;
- **Gwefan Dwy Ochr** - Roedd y rheini a oedd yn cymryd rhan wedi cydweithio'n agos â Charfan Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) RhCT i ymgynghori â phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal i ddatblygu cynnwys gwefan Dwy Ochr RhCT.

Cyflwynodd Ms T. Evans ei hun i'r Bwrdd, a rhoddodd wybod i'r Aelodau ei bod hi ar un adeg yn berson ifanc o Leisiau o Ofal, ac ers hynny wedi'i phenodi'n llwyddiannus fel Swyddog Cefnogi Hyfforddeion o fewn y sefydliad. Siaradodd Ms Evans am ei dyletswyddau ar leoliad a oedd yn cynnwys tasgau gweinyddol amrywiol a nifer o brosiectau roedd hi'n teimlo'n angerddol drostyn nhw. Un prosiect penodol yr oedd Ms Evans wedi bod yn gysylltiedig ag e ers iddo gael ei sefydlu oedd Grŵp y Person Ifanc, a lansiwyd i adnabod pobl ifainc sydd angen cymorth yn yr ysgol ac i ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid i'r rhai sy'n trosglwyddo yn 16 oed.

Canmolodd un Aelod gyflawniadau Fforwm RhCT a holodd a oedd nifer fawr o bobl wedi mynd i achlysuron fel Gŵyl Lenyddol y Gelli Gandryll ym mis Mai, 2018 gan ei bod yn cynnig cyfleoedd hwyl ac addysgiadol i bobl ifainc. Dywedodd Ms K. Edmonds-Daniel fod nifer y bobl sy'n cymryd rhan ym mhob gweithgaredd yn amrywio ond fel rheol mae 5 - 10 o bobl ifainc yn yr achlysuron lleol a thua 15 yn yr achlysuron rhanbarthol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Fforwm RhCT am rannu'r llwyddiannau parhaus gyda'r Bwrdd a rhoi adroddiad manwl am eu profiadau. Canmolodd yr Aelod lwyddiant parhaus Ms T. Evans a'i chroesawu i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
- b) Y byddai Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau i Blant yn anfon at Fforwm RhCT fanylion cyswllt swyddogion y Garfan 16 oed a hŷn a Charfan y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Cyflwynodd Ms E. Phipps-Magill, o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, y Bwrdd Rhianta Corfforaethol i'w chydweithiwr, Ms. E. Jones, a fyddai'n cynrychioli'r Gwasanaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

Rhoddodd Ms E. Jones ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y cynnydd mae'r Gwasanaeth wedi'i wneud ar gyfer Chwarter 2. Eglurodd fod 128 o atgyfeiriadau newydd wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod gan gynnwys 82 o atgyfeiriadau ym maes Cynigion Gweithredol o Eiriolaeth a 46 ym maes cymorth eiriolaeth yn seiliedig ar faterion.

Cafodd ei nodi bod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn dod oddi wrth bobl ifainc. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn dangos llwyddiant y Cynnig Gweithredol. Yn debyg i chwarteri blaenorol, roedd demograffeg oedran y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn amrywio o 12 i 16 oed, gyda'r materion eiriolaeth mwyaf cyffredin yn ymwneud â lleoliadau a chysylltiadau.

Gan gyfeirio at y tabl o Feini Prawf Cymhwyster sy wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, dywedodd y swyddog fod angen codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal lle mae nifer is o lawer o ddefnyddwyr.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod cyfarfodydd rheoli rheolaidd wedi cael eu nodi yn nyddiaduron swyddogion RhCT a swyddogion y Gwasanaeth Eiriolaeth ac roedden nhw'n cryfhau cysylltiadau yn gadarnhaol i ddarparu cymorth i bobl ifainc.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod cyfradd ymateb y Cynnig Gweithredol yn uchel, gan nodi llwyddiant yr ymgyrch i sicrhau bod pobl yn effro i eiriolaeth.

Roedd trafodaethau ynglŷn â gwaith cadarnhaol y Prosiect Undod a oedd yn sefydlu cysylltiadau â Charfan Teuluoedd Cydnerth y Cyngor a Llesiau o Ofal. Cytunodd yr Aelodau y byddai o fudd i gynrychiolwyr y Prosiect Undod ddod i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.

Holodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a oedd data sy'n dangos deilliannau cadarnhaol i bobl ifanc yn sgil eirioli, a nododd yr Aelodau bod angen olrhain deilliannau 'meddal' a 'chaled'. Esboniodd cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Eiriolaeth ei bod hi'n anodd rhoi tystiolaeth ar ffurf data ffurfiol, oherwydd yn aml dydy pobl ifainc ddim yn llenwi'r ffurflenni adborth ond y byddai'n bosibl casglu tystiolaeth ar gyfer deilliannau penodol hyd nes i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei fframwaith deilliannau.

Yn dilyn trafodaeth, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Ms E. Phipps-Magill am ei phresenoldeb a'i mewnbwn cadarnhaol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
- b) Gwahodd cynrychiolwyr o'r Prosiect Undod i gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

27 **Monitro'r Sector Annibynnol**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynglŷn â chomisiynu a monitro lleoliadau allanol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn RhCT. Roedd aelodau wedi gofyn am gael yr wybodaeth yma o'r blaen.

Atgoffodd y swyddog yr Aelodau am y broses ar gyfer dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant a phobl ifainc, sef bod swyddogion lleoliadau RhCT yn dechrau trwy adolygu'r adnoddau sydd ar gael yn fewnol. Lle nad oes modd dod o hyd i leoliad addas, mae swyddogion yn chwilio am leoliadau allanol sydd ar gael ar yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR), safle diogel ar-lein sy wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Esboniodd y swyddog, er 18 Hydref, 2018, roedd RhCT wedi gosod 163 o blant a phobl ifainc mewn lleoliadau yn y sector maethu annibynnol allanol a 30 o blant a phobl ifainc mewn lleoliadau yn y sector gofal preswyl allanol. Cydnabu'r Aelodau ei bod yn bosibl y byddai'r niferoedd ychydig yn wahanol i'r hyn sydd yn yr adroddiad oherwydd bod niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal yn RhCT yn newid yn gyson.

Atgoffodd y swyddog yr Aelodau fod RhCT yn aelod o Gonsortiw Comisiynu Plant Cymru ac yn comisiynu lleoliadau gyda darparwyr allanol trwy'r Fframwaith Cymru Gyfan. Cafodd ei nodi fod yna hefyd 49 o ddarparwyr sy ddim yn rhan o'r fframwaith sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru neu'n ystyried datblygu darpariaeth. Cafodd yr Aelodau gadarnhad bod y darparwyr hyn yn cael eu monitro'n barhaol trwy'r broses adolygu a bod rhaid iddyn nhw gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, er nad ydyn nhw'n rhan o'r Fframwaith ac felly ddim yn destun i wiriadau'r Consortiw Comisiynu.

Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod y niferoedd wedi sefydlogi a bod yr adroddiad blynyddol yn dangos gwelliannau ers adroddiad 2016-17.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr wybodaeth ddiweddaraf a nododd bwysigrwydd gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'r darparwyr sy ddim yn rhan o'r Fframwaith a'r broses adolygu.

PENDERFYNODD y Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad.

28 **Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol Mabwysiadu Rhanbarthol 2017-18 i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Eglurodd ei fod wedi'i gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc ar 7 Tachwedd, 2018, a bod y Pwyllgor hwnnw'n falch bod argymhellion blaenorol wedi'u gweithredu gyda rhagor o adnoddau.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y garfan oedd wedi'i lleoli yn Nhŷ Pennant bellach

wedi'i lleoli yn y Barri oherwydd materion llety, ond mae aelodau'r garfan yn lleihau ar eu hamser teithio trwy weithio'n hyblyg.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at adran 4.2 yr adroddiad lle dysgon nhw fod 86 o blant wedi'u gosod i'w mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 6% ar y flwyddyn flaenorol. Esboniodd y swyddog fod 51 o blant allan o'r 86 wedi'u lleoli o fewn y rhanbarth a bod 23% o'r lleoliadau a oedd wedi'u sefydlu yn rhai ar gyfer plant mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd, sy'n arwydd o duedd gynyddol.

Siaradodd y swyddog am ddarparu Deunydd Taith Bywyd i blant, gan roi gwybod i'r Aelodau fod y deunyddiau wedi'u rhoi yn eu lle erbyn yr ail Adolygiad Mabwysiadu yn achos 68% o blant yn ystod y flwyddyn. Sicrhodd y swyddog yr Aelodau nad yw'r ffigwr uchod yn golygu fod y deunydd ddim yn cael ei ddarparu, ond dydy e ddim wedi'i ddarparu erbyn yr ail adolygiad. Mae'r dystiolaeth yn y tabl ar dudalen 54 yn dangos hyn.

Roedd trafodaethau ynghylch y gostyngiad yn nifer y bobl sydd eisiau mabwysiadu sy'n cael eu recriwtio ac roedd Aelodau'n cydnabod bod hyn yn broblem Genedlaethol. Dywedodd y swyddog fod Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd wedi penodi rhywun i weithio'n benodol ar farchnata er mwyn cynyddu nifer y bobl yn y rhanbarth sydd eisiau mabwysiadu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr wybodaeth ddiweddaraf a chydabu'r angen am ragor o bobl sydd eisiau mabwysiadu ar adeg pan fo nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynyddu. Nododd fod penodi swyddog marchnata yn hanfodol i'r broses yma a byddai'n croesawu diweddariad yn y dyfodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi cynnwys yr adroddiad.

29 Plant sy'n Derbyn Gofal: Deilliannau Addysgol

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar ddeilliannau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/2017.

Dywedodd y swyddog fod yr adroddiad yn cynnwys data Lleol a Chenedlaethol; fodd bynnag, doedd dim modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol oherwydd mecanweithiau adrodd sy'n amrywio.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at dabl 2 yn yr adroddiad lle mae amlinelliad o nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth. Nododd yr Aelodau y bu cynnydd o 10.62% mewn perthynas â data RhCT ers 2015-16 ond roedden nhw'n cydnabod mai RhCT yw'r ail Awdurdod Lleol mwyaf a bod y cynnydd yn eithaf cyson ledled Cymru.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at dabl 4 yn yr adroddiad lle mae canran y plant a oedd wedi cael tri lleoliad neu'n rhagor yn ystod y flwyddyn yn cael ei hamlinellu. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod RhCT yn gyfwerth â 8% sydd ar ben isaf yr ystod wrth edrych ar y darlun cenedlaethol.

Aeth y swyddog ymlaen i drafod canlyniadau arholiadau dros dro 2017/18, gan roi gwybod i'r Aelodau nad oedd modd eu cymharu'n uniongyrchol â thablau 2016/17 yn yr adroddiad. Esboniodd y swyddog fod gwelliannau wedi bod, ond roedd angen parhau i fonitro cynnydd yng Nghyfnod Allweddol 4.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y canlyniadau dros dro yn awgrymu bod RCT wedi cyflawni cyfradd bresenoldeb uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda chynnydd yng nghyfradd bresenoldeb yr ysgolion cynradd o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol a lleihad bach mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

Dywedodd y swyddog fod y data dros dro ar gyfer 2017/18 yn nodi bod gostyngiad yng nghyfradd gwahardd disgyblion yn RhCT ond bod nifer gwirioneddol y gwaharddiadau wedi cynyddu ynghyd â ffigurau cenedlaethol.

Siaradodd Aelodau am yr Adnodd Ysgolion sy'n Ystyriol o Blant sy'n Derbyn Gofal, teclyn addysgiadol, hawdd ei ddeall ar gyfer ysgolion, sy wedi'i ariannu gan y Grant Amddifadedd Disgyblion. Dywedodd y swyddog fod 22 ysgol wedi cofrestru ar y rhaglen, a'r bwriad yw y bydd yr Adnodd yn cyfrannu at welliannau yn y dyfodol. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd angen i ysgol gael lleiafswm o Blant sy'n Derbyn Gofal i gymryd rhan y dywedodd y swyddog doedd dim nifer penodol.

Roedd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn falch o weld bod yr adroddiad yn amlinellu sefydlogrwydd lleoliadau yn RhCT. Holodd y swyddog a oedd modd cymharu data cyrhaeddiad addysgol RhCT ag Awdurdodau Lleol eraill, ac eglurodd y swyddog fod y data yn gyfyngedig, ond roedd potensial i gymharu ar draws y Consortiwm.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad manwl a **PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
- b) Bod y swyddog yn cyflwyno adroddiad ym mis Mawrth, 2019 yn manylu ar Ganlyniadau Addysgol Terfynol 2017/18 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

30 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

31 Gwasanaethau Cymdeithasol - Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2018 a 30 Medi 2018.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Roedd yr aelodau'n falch bod nifer y canmoliaethau a gafodd eu derbyn yn ystod y chwarter yn uwch na nifer y cwynion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD**

Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

32 Adroddiadau Rheoliad 32

Yn absenoldeb Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 sy wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynoded o ddeilliannau'r arolygiad a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

(Noder: Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant wrth Aelodau y byddai ymweliadau â chartrefi plant yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn fewnol, gyda diweddariadau chwarterol yn cael eu rhoi i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, yn dilyn newidiadau i Reoliadau Llywodraeth Cymru. Gan gydnabod gwerth yr adolygiadau annibynnol a gafodd eu cynnal gan Mr J. Llewellyn-Thomas, a'r feirniadaeth adeiladol a'r her maen nhw'n eu rhoi, rhoddodd y swyddog sicrwydd i Aelodau y byddai Mr J. Llewellyn-Thomas yn ceisio cynnal archwiliadau blynyddol o'r tri chartref i blant. Diolchodd yr aelodau i Mr. J. Llewellyn-Thomas am ei waith gwerthfawr.)

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am

**Y Cyngorydd C Leyshon
Cadeirydd.**